



Disclosure &  
Barring Service

## Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Rolau chwaraeon gydag oedolion



*Ymwadiad: Nid yw hyn yn gyngor cyfreithiol. Os oes angen help arnoch i sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r gyfraith, dylech siarad â chynghorydd cyfreithiol.*

## Cyflwyniad

Mae'r daflen hon yn esbonio cymhwysedd ystod o rolau ar draws y sector chwaraeon yn seiliedig ar ddisgrifiadau generig o'r rolau a'u cyfrifoldebau. Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol p'un a yw'r unigolion yn cael eu talu neu beidio

Os yw eich sefydliad yn cyflogi pobl nad ydynt yn bodloni'r holl amodau a amlinellir yn y daflen hon, efallai y byddant yn gymwys i gael gwiriad lefel wahanol. Bydd angen i chi gyfeirio at ein hadnodd a'n canllawiau cymhwysedd ar-lein [i wirio hyn](#). Os yw eich sefydliad yn cyflogi pobl mewn rolau gwahanol sy'n cyflawni dyletswyddau tebyg i'r rhai yn y daflen hon, dylech gyfeirio at ein canllawiau ar-lein gan y gallent fod yn gymwys i gael yr un lefel o wiriad.

Gall unrhyw newidiadau i rôl neu i'r gweithgareddau y mae unigolyn yn eu cyflawni effeithio ar lefel y gwiriad sy'n berthnasol. Am fwy o wybodaeth, cyfeiriwch at [ein canllawiau](#) cymhwysedd sydd i'w gweld ar wefany Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i wiriadau cofnodion troseddol yng Nghymru, Lloegr, Ynysoedd y Sianel, ac Ynys Manaw. Gellir cael gwybodaeth am wiriadau sydd ar gael yn yr Alban gan [Disclosure Scotland](#). Gellir cael gwybodaeth am wiriadau sydd ar gael yng Ngogledd Iwerddon gan [Access NI](#).

## Rolau yn y sector chwaraeon

Isod mae rhai enghreifftiau sy'n dangos sut y gellir cymhwyso cymhwysedd i rai rolau yn y sector chwaraeon. Mae deddfwriaeth yn nodi beth yw gweithgarwch rheoledig gydag oedolion, a beth sydd wedi ei gynnwys yn y diffiniad o 'weithio gydag oedolion'. I weld mwy am yr hyn a olygir gan weithgarwch rheoledig gydag oedolion, gweler y [daflen gweithgaredd rheoledig gydag oedolion](#) ar ein gwefan, ac am 'weithio gydag oedolion', gweler Atodiad B.

## Bodloni'r amod cyfnod wrth weithio gydag oedolion

Bydd rhai rolau yn y canllawiau hyn yn 'gweithio gydag oedolion' ac yn gymwys i gael gwiriad DBS Uwch heb wiriad Rhestr Gwahardd Oedolion os cânt eu cynnal yn ddigon aml i gwrdd â'r amod cyfnod. Yr amod cyfnod wrth gynnal gweithgareddau sy'n 'gweithio gydag oedolion' yw:

- mwy na 3 diwrnod mewn unrhyw gyfnod o 30 diwrnod, neu
- unwaith dros nos rhwng 2yb a 6yb gyda'r cyfle i ddod i gysylltiad wyneb yn wyneb ag oedolion, neu
- leiaf unwaith yr wythnos yn barhaus

Os na fodlonir yr amod cyfnod hwn, nid yw'r rôl yn gwneud gwaith gydag oedolion. Dylai sefydliadau wirio'r canllaw [Cymhwysedd ar gyfer gwiriadau DBS safonol](#) i weld a oes cymhwysedd i wneud cais am wiriad DBS Safonol. Os na chynhwysir y rôl yma, yna gellir gofyn i'r unigolyn wneud cais am wiriad DBS Sylfaenol.

Bydd rhai rolau yn y canllawiau hyn yn cael eu rheoleiddio gan oedolion. Mae'r rolau hyn yn gymwys i gael gwiriad DBS Uwch gyda gwiriad Rhestr Gwahardd Oedolion. Dim ond unwaith y mae angen cynnal gweithgareddau rheoledig gydag oedolion.

## Gweithwyr proffesiynol gofal iechyd mewn chwaraeon

Mae sawl rôl yn y sector chwaraeon sy'n darparu gofal iechyd, megis ffisiotherapyddion, seicotherapyddion, sefydliadau cymorth cyntaf, meddygon/nyrsys clybiau ac ati, lle mae cymhwysedd yn bodoli er mwyn gofyn i'r unigolion hyn wneud cais am wiriad DBS.

Unrhyw un sy'n darparu gofal iechyd i oedolion ac yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol rheoledig neu'n gweithio o dan gyfarwyddyd neu oruchwyliaeth gweithiwr gofal iechyd proffesiynol rheoledig, yn cyflawni gweithgarwch rheoledig gydag oedolion. Nid oes ots pa mor aml y mae'r gofal iechyd hwn yn cael ei ddarparu er mwyn bodloni'r meini prawf cymhwysedd.

Mae hyn yn golygu y gellir gofyn iddynt wneud cais am wiriad DBS Uwch gyda gwiriad Rhestr Gwahardd Oedolion.

Mae gweithio dan gyfarwyddyd gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn golygu y bydd yr unigolyn yn derbyn cyfarwyddiadau uniongyrchol gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ynghylch sut i drin y cleient tra bod y gofal iechyd yn cael ei ddarparu.

Mae gweithio o dan oruchwyliaeth gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn golygu bod yr unigolyn mewn cysylltiad â'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol tra'i fod yn darparu'r driniaeth i'r cleient.

Nid yw gofal iechyd a ddarperir gan **swyddogion cymorth cyntaf** ond yn weithgaredd rheoledig os yw'n cael ei ddarparu ar ran sefydliad a sefydlwyd at y diben o ddarparu cymorth cyntaf, e.e. Ambiwylans Sant Ioan.

## Rolau eraill sy'n gweithio gydag oedolion

I fod yn gymwys wrth weithio gydag oedolion mewn amgylchedd chwaraeon, mewn rôl nad yw'n darparu gofal iechyd, rhaid i unigolyn fodloni gofynion penodol a nodir yn Rheoliadau Deddf yr Heddlu 1997 (Cofnodion Troseddol) 2002, fel y'u diwygiwyd.

Mae'r rheoliadau hyn yn esbonio beth yw gweithio gydag oedolion. Diffinnir hyn fel 'unrhyw weithgaredd ym mharagraff 6, i oedolyn sy'n derbyn gwasanaeth iechyd neu ofal cymdeithasol ym mharagraff 9, neu weithgaredd penodedig ym mharagraff 10', os yw'n ei wneud yn ddigon aml.

Mae mwy o wybodaeth am yr hyn y mae'r paragraffau hyn yn ei ddweud a pha mor aml y mae'n rhaid gwneud weithgaredd i'w gweld yn y camau yn [Atodiad B](#).

Isod mae rhai enghreifftiau o sut y gallai'r meini prawf ar gyfer gweithio gydag oedolion fod yn berthnasol i ddetholiad o rolau.

## Hyfforddwyr

Mae'r hyfforddwr ar gyfer tîm pêl-droed oedolyn a sefydlwyd yn benodol ar gyfer pobl â pharlys yr ymennydd yn gymwys i gael gwiriad DBS Uwch os ydynt yn gwneud hyn yn ddigon aml i gwrdd â'r amod cyfnod (gweler yr adran uchod).

Mae hyn oherwydd eu bod yn darparu hyfforddiant i oedolion sy'n derbyn math o ofal iechyd, gofal neu gymorth a ddarperir oherwydd eu hanabledd. Nid oes mynediad i wiriad Rhestr Gwahardd Oedolion ar gyfer y rôl hon.

Pe bai tîm pêl-droed yr oedolyn ar agor i unrhyw oedolyn, dim ond am wiriad DBS Sylfaenol y gellid gofyn i'r hyfforddwr wneud cais. Mae hyn oherwydd na fyddai aelodau'r tîm sy'n oedolion yn derbyn gwasanaeth a sefydlwyd yn benodol iar eu cyfer oherwydd eu hoedran, salwch neu anabledd.

## Dyfarwyr, canolwyr a swyddogion eraill

Enwir rôl stiward cae pêl-droed mewn deddfwriaeth ac mae'n gymwys yn awtomatig i gael gwiriad DBS Safonol os yw'n delio â phlant neu oedolion sy'n derbyn gofal iechyd a chymdeithasol neu beidio.

Nid yw rolau swyddogol chwaraeon eraill yn cael eu crybwyll yn benodol mewn deddfwriaeth fel rhai sy'n gymwys i gael gwiriad DBS. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid ystyried pob rôl yn unigol i sefydlu beth mae'r person yn ei wneud a allai fod yn gymwys. Y rheswm am hyn yw bod cyfrifoldebau swyddog yn gallu amrywio rhwng gwahanol chwaraeon a chlybiau.

Mae canolwr mewn cynghrair pêl-fasged cadair olwyn sydd wedi'i sefydlu'n benodol ar gyfer oedolion sydd ag anabledd, salwch corfforol neu feddyliol yn gymwys i gael gwiriad **DBS Uwch heb** wiriad Rhestr Gwahardd Oedolion os yw dyletswyddau'r canolwr yn cynnwys gofalu am neu oruchwylio'r oedolion sy'n chwarae, a'u bod yn gwneud hyn yn ddigon aml i gwrdd â'r amod cyfnod.

Mae swyddog sydd â chyfrifoldeb penodol dros oruchwylio oedolion sy'n derbyn gofal iechyd a chymdeithasol (gweler [Atodiad B](#)) cyn neu ar ôl gêm, neu yn ystod hyfforddiant, yn gymwys i gael gwiriad DBS Uwch ond eto **heb** wiriad Rhestr Gwahardd Oedolion, cyn belled â bod yr amod cyfnod yn cael ei fodloni.

Os oedd y gynghrair pêl-fasged ar agor i bob oedolyn, dim ond am wiriad DBS Sylfaenol y gall y canolwr wneud cais. Mae hyn oherwydd nad yw'r oedolion yn derbyn gwasanaeth a sefydlwyd i'w ddarparu'n benodol iddynt oherwydd eu hoedran, salwch neu anabledd.

## Therapyddion chwaraeon

Os yw clwb chwaraeon yn cyflogi unrhyw un y mae ei rôl yn cynnwys perfformio a darparu tylino chwaraeon ar gyfer timau oedolion, neu unrhyw oedolion unigol, gallant ofyn am wiriad DBS Uwch ond heb wiriad Rhestr Gwahardd Oedolion.

Y rheswm am hyn yw bod y therapydd chwaraeon yn darparu math o driniaeth, mae'r oedolyn yn derbyn gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol trwy dderbyn y driniaeth honno, ac mae'r therapydd yn gwneud hyn yn ddigon aml i fodloni'r holl feini prawf yn y Camau yn [Atodiad B](#).

Os yw tylinochwaraeon yn cael ei ddarparu gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol, yna mae hyn yn weithgaredd rheoledig gydag oedolion ac yn gymwys i gael gwiriad DBS Uwch gyda Rhestr Gwahardd Oedolyn hyd yn oed os mai dim ond ar un achlysur y gwneir hynny.

## Grwpiau rhedeg

Weithiau mae grwpiau rhedeg cyhoeddus neu breifat yn penodi arweinydd rhedeg i drefnu neu oruchwylio digwyddiadau a gynhelir gan y grŵp. Os nad oes sefydliad yn cymeradwyo'r unigolyn i gyflawni'r rôl hon, yna ni allant wneud cais am wiriad DBS Safonol neu Uwch, a gallai'r arweinydd rhedeg ddim ond geisio am wiriad Safonol.

Yn gyffredinol, nid yw arweinwyr rhedeg yn gymwys i gael gwiriadau DBS Safonol neu Uwch yn y gweithlu oedolion, fodd bynnag, ar gyfer achosion lle mae sefydliad **yn** gwneud penderfyniad addasrwydd ar arweinydd rhedeg a mae gan yr arweinydd rhedeg ddyletswyddau hyfforddi, yna gall cymhwysedd fodoli yn yr un ffordd ag ar gyfer hyfforddwyr (gweler uchod).

## Achubwyr Bywyd Pwll Nofio

Mae canllawiau gan y Gymdeithas Frenhinol Achub Bywyd yn nodi nad yw dyletswyddau achub bywyd pwll nofio yn cynnwys cyflawni unrhyw un o'r gweithgareddau sy'n weithgaredd rheoledig gydag oedolion neu 'weithio gydag oedolion'. Fodd bynnag, maent yn gymwys i gael gwiriadau DBS Uwch yn y gweithlu plant, fel yr eglurir yn y daflen 'Rôlau chwaraeon gyda phlant'.

## Staff Canolfan Hamdden

Fel rheol, nid yw staff canolfannau hamdden, e.e. derbynyddion, glanhawyr, cynorthwywyr ystafell newid, hyfforddwyr campfa, yn gymwys i gael gwiriadau DBS Safonol neu Uwch yn y gweithlu oedolion. Dim ond y rhai sy'n cyflawni gweithgareddau addysgu gydag oedolion yn yr un ffordd ag y soniwyd yn yr adran 'Hyfforddwyr' all fod yn gymwys.

## Rheolwyr a goruchwylwyr

Os yw unigolyn yn cael ei gyflogi gyda dyletswyddau, gan gynnwys rheolaeth reolaidd o ddydd i ddydd neu oruchwyliaeth rhywun sy'n gwneud gwaith gydag oedolion, yna mae'r unigolyn hwn hefyd mewn gwaith gydag oedolion ac mae'n gymwys i gael gwiriad DBS Uwch ond heb wiriad Rhestr Gwahardd Oedolion.

Er enghraifft, os yw hyfforddwr chwaraeon yn gymwys i gael gwiriad DBS Uwch heb wiriad Rhestr Gwahardd Oedolion am fod mewn gwaith gydag oedolion, yna bydd unrhyw berson sy'n cael ei gyflogi i reoli neu oruchwylio'r hyfforddwr chwaraeon hwnnw o ddydd i ddydd hefyd yn gymwys i gael yr un lefel o wiriad.

Nid yw hyn ond yn berthnasol i swyddi rheoli/goruchwylio uniongyrchol ac nid yw'n ymestyn i gwmpasu'r gadwyn rheoli llinell gyflawn.

## Adrodd pryderon i'r DBS

Pan fyddwch yn gofyn am wiriad DBS Uwch gyda gwiriad Rhestr Waharddedig i asesu rhywun i gyflawni gweithgarwch rheoledig gydag oedolion (gweler [Atodiad](#)

[A](#)),mae hyn yn golygu eich bod yn ddarparwr gweithgaredd rheoledig (RAP). Mae bod yn ddarparwr gweithgaredd rheoledig yn golygu bod dyletswydd gyfreithiol arnoch chi fel sefydliad i wneud atgyfeiriad gwahardd i'r DBS lle mae amodau perthnasol yn cael eu bodloni. Gweler taflen y DBS ar Atgyfeiriadau Gwahardd am fwy o wybodaeth.

## Atodiad A - Diffiniad o weithgarwch rheoledig gydag oedolion

Mae gweithgarwch rheoledig gydag oedolion yn weithgaredd na ddylid ei chyflawni gan bobl sydd wedi'u cynnwys ar y Rhestr Gwahardd Oedolion.

Os bydd rhywun sy'n gwybod eu bod wedi'u gwahardd rhag gweithgaredd rheoledig gydag oedolion yn gwneud cais am unrhyw fath o waith sy'n bodloni'r diffiniad o weithgarwch rheoledig isod, maent yn cyflawni trosedd fel y mae unrhyw un sy'n eu cyflogi mewn rôl â thâl neu ddi-dâl sy'n cynnwys gweithgarwch rheoledig gan wybod eu bod wedi'u gwahardd. Gallai'r ddau dderbyn hyd at 5 mlynedd o garchar a/neu ddirwy.

Gall unrhyw un sy'n cyflawni gweithgaredd a gwmpesir gan y diffiniad o weithgarwch rheoledig gydag oedolion wneud cais am wiriad DBS Uwch gan gynnwys gwiriad Rhestr Gwahardd i Oedolion.

Mae'r gweithgareddau canlynol yn weithgareddau rheoledig gydag oedolion, waeth pa mor aml y cânt eu cynnal:

- Darparu gofal iechyd i oedolyn drwy, neu o dan gyfarwyddyd neu oruchwyliaeth, gweithiwr gofal iechyd proffesiynol rheoledig:
  - yn gweithio dan gyfarwyddyd gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, bydd yr unigolyn yn derbyn cyfarwyddiadau uniongyrchol gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ynghylch sut i drin y cleient tra bod y gofal iechyd yn cael ei ddarparu.
  - mae gweithio dan oruchwyliaeth gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn golygu bod yr unigolyn mewn cysylltiad â'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol tra ei fod yn darparu'r driniaeth i'r cleient.
- Darparu gofal personol; yn cynnwys:
  - cymorth corfforol gyda bwyta, yfed, mynd i'r toiled, golchi, ymolchi, gwisgo, gofal ly geg neu ofal croen, gwallt neu ewinedd i oedolion na allant wneud hyn eu hunain oherwydd eu hoedran, salwch neu anabledd
  - annog ac yna goruchwyllo bwyta, yfed, mynd i'r toiled, ymolchi, gwisgo, gofal y geg neu ofal croen, gwallt neu ewinedd i oedolion na allant benderfynu gwneud hyn drostynt eu hunain oherwydd eu hoedran, salwch neu anabledd
  - darparu hyfforddiant, cyfarwyddo, cyngor neu arweiniad ar fwyta, yfed, mynd i'r toiled, ymolchi, gwisgo, gofal y geg neu ofal croen, gwallt neu ewinedd i oedolion na allant wneud hyn drostynt eu hunain oherwydd eu hoedran, salwch neu anabledd
- Darparu gwaith cymdeithasol gan weithiwr gofal cymdeithasol perthnasol i oedolyn sy'n gleient neu'n gleient posibl,
- Helpu oedolyn na all reoli ei hun oherwydd ei oedran, salwch neu anabledd gyda rhedeg eu cartref eu hunain o ddydd i ddydd drwy:
  - reoli eu harian
  - dalu eu biliau

- wneud eu siopa
- Cymorth i gynnal materion oedolyn ei hun, lle:
  - mae atwrneiaeth barhaol yn cael ei chreu
  - atwrneiaeth barhaus wedi'i chofrestru neu wedi'i cheisio amdani
  - mae'r Llys Gwarchod wedi gwneud gorchymyn mewn perthynas â gwneud penderfyniadau ar ran yr oedolyn
  - mae eiriolwr iechyd meddwl annibynnol neu alluedd meddyliol yn cael ei benodi
  - mae gwasanaethau eiriolaeth annibynnol yn cael eu darparu
  - mae cynrychiolydd i dderbyn taliadau budd-daliadau ar ran yr oedolyn yn cael ei benodi
- trosglwyddo oedolion i, o, neu rhwng gofal iechyd, gofal personol a/neu wasanaethau gwaith cymdeithasol na allant gyfleu eu hunain oherwydd eu hoedran, salwch neu anabled
- rheoli neu oruchwylio unrhyw un sy'n cyflawni unrhyw un o'r gweithgareddau a restrir uchod o ddydd i ddydd



## Atodiad B – Diffiniad o waith gyda gweithgareddau oedolion

Bydd person yn perfformio gwaith gydag oedolion os yw'n bodloni'r meini prawf yn y 3 cham a grybwyllir isod.

### Cam 1: Gyda phwy mae'r unigolyn yn gweithio?

Rhaid i berson fod yn cyflawni gweithgaredd ar gyfer oedolion sy'n derbyn gwasanaeth iechyd neu ofal cymdeithasol ym mharagraff 9, neu weithgaredd penodedig ym mharagraff 10.

#### Paragraff 9 – gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol:

- a) llety preswyl i oedolyn mewn cysylltiad ag unrhyw ofal neu nyrsio sydd ei angen arnynt
- b) llety i oedolyn sy'n ddisgybl neu sydd wedi bod yn ddisgybl mewn ysgol breswyl arbennig
- c) tai gwarchod
- d) unrhyw fath o ofal, neu gymorth a ddarperir oherwydd oedran, iechyd neu anabledd oedolyn sydd ganddo, sy'n cael ei ddarparu i'r oedolyn yn y man lle mae'n byw.
- e) unrhyw fath o ofal iechyd, gan gynnwys triniaeth, therapi neu ofal lliniarol o unrhyw fath
- f) cefnogaeth, cymorth neu gyngor i helpu i ddatblygu neu gynnal gallu oedolyn i fyw'n annibynnol mewn llety
- g) unrhyw wasanaeth a ddarperir yn benodol ar gyfer oedolion oherwydd eu hoedran, unrhyw anabledd, salwch corfforol neu feddyliol. Nid yw hyn yn cynnwys yr anableddau canlynol:
  - i) dyslecsia
  - ii) dyscalciwlia
  - iii) dyspracsia
  - iv) syndrom irlen
  - v) alecsia
  - vi) anhwylder prosesu clywedol
  - vii) dysgraffia
- h) Unrhyw wasanaeth a ddarperir yn benodol i famau beichiog neu famau sy'n bwydo sy'n derbyn llety preswyl.

Os yw rhywun yn perfformio gweithgaredd gydag oedolyn sy'n derbyn gwasanaeth ym mharagraff 9, ewch i Gam 2.

Os nad yw'r oedolion yn derbyn gwasanaeth ym mharagraff 9, gwiriwch a ydynt yn derbyn gwasanaeth ym mharagraff 10.

## Paragraff 10 – gweithgareddau penodedig:

- a) cadw oedolyn mewn carchar, canolfan remand, sefydliad troseddwr ifanc, canolfan hyfforddi ddiogel, neu ganolfan bresenoldeb
- b) cadw person dan gadwad (o fewn ystyr Rhan 8 o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999) sy'n cael ei gadw mewn canolfan symud neu gyfleuster daliannol tymor byr neu yn unol â threfniadau hebrwng a wneir o dan y Ddeddf honno
- c) goruchwylio oedolyn o dan orchymyn llys gan berson sy'n gweithredu at ddibenion Rhan 1 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000
- d) goruchwylio oedolyn gan berson sy'n gweithredu at y dibenion a grybwyllir yn adran 1(1) o Ddeddf Rheoli Troseddwr 2007
- e) rhoi cymorth i oedolyn gyda chyflawni gorchwylion bywyd mewn sefyllfaoedd lle:
  - i) caiff atwrneiaeth arhosol ei greu mewn perthynas â'r oedolyn yn unol ag adran 9 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 neu gwneir cais o dan baragraff 4 o Atodlen 1 i'r Ddeddf honno ar gyfer cofrestru offeryn a fwriedir i greu atwrneiaeth arhosol mewn perthynas â'r oedolyn.
  - ii) mae atwrneiaeth barhaus (o fewn ystyr Atodlen 4 i'r Ddeddf honno) mewn cysylltiad â'r oedolyn wedi'i gofrestru yn unol â'r Atodlen honno neu gwneir cais o dan yr Atodlen honno ar gyfer cofrestru atwrneiaeth barhaus mewn perthynas â'r oedolyn
  - iii) mae gorchymyn o dan adran 16 o'r Ddeddf honno wedi'i wneud gan y Llys Gwarchod mewn perthynas â gwneud penderfyniadau ar ran yr oedolyn, neu gwnaethpwyd cais am orchymyn o'r fath
  - iv) os yw eiriolwr galluedd meddyliol annibynnol yn cael ei benodi mewn cysylltiad â'r oedolyn yn unol â threfniadau o dan adran 35 o'r Ddeddf honno
  - v) mae gwasanaethau eiriolaeth annibynnol (o fewn ystyr adran 248 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 neu adran 187 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yn cael eu darparu neu i'w darparu mewn perthynas â'r oedolyn; neu
  - vi) mae cynrychiolydd i'w benodi i dderbyn taliadau ar ran yr oedolyn yn unol â rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992
- f) gwneir taliadau i'r oedolyn neu i berson arall ar ran yr oedolyn o dan drefniadau a wneir o dan adran 57 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001.
- g) gwneir taliadau i'r oedolyn neu i berson arall ar ran yr oedolyn o dan adran 12A(1) neu o dan reoliadau a wneir o dan adran 12A(a) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006, neu o dan reoliadau a wneir o dan adran 12A(4) o'r Ddeddf honno.

Os yw rhywun yn cyflawni gweithgaredd gydag oedolyn sy'n derbyn gwasanaeth ym mharagraff 10, ewch i Gam 2.

Os nad yw'r oedolion yn derbyn gwasanaeth ym mharagraff 9 neu 10, gall y person sy'n gweithio gyda nhw fod yn gymwys i gael gwiriad DBS Safonol o hyd a bydd bob amser yn gallu gwneud cais am wiriad DBS Sylfaenol.

## Cam 2: Beth yw'r gweithgaredd?

Os yw'r oedolion yn derbyn gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol, neu weithgaredd penodedig o'r paragraffau yng Ngham 1, yna dylid ystyried y gweithgaredd sy'n cael ei ddarparu i'r oedolion hynny. Rhaid i berson fod yn gwneud un o'r gweithgareddau canlynol ym mharagraff 6:

### Paragraff 6 – gweithgareddau i'r oedolion:

- a) darparu unrhyw fath o ofal neu oruchwyliaeth
- b) darparu unrhyw driniaeth neu therapi
- c) darparu unrhyw fath o hyfforddiant, addysgu, cyfarwyddyd, cymorth, cyngor, neu arweiniad yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion a ddisgrifir yng Ngham 1
- d) cymedroli gwasanaeth cyfathrebu rhyngweithiol electronig cyhoeddus i'w ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf gan oedolion a ddisgrifir yng Ngham 1
- e) gwneud unrhyw fath o waith mewn cartref gofal os yw'r person sy'n gwneud y gwaith yn cael cyfle i gael cyswllt â'r preswylwyr
- f) darparu gwasanaethau cynrychiolaeth neu eiriolaeth
- g) cyfleu oedolion, hyd yn oed os ydynt yng nghwmni rhywun sy'n gofalu amdanynt

Os yw rhywun yn perfformio un o'r gweithgareddau uchod, ewch i Gam 3.

Os nad ydynt yn cyflawni un o'r gweithgareddau hyn, efallai y byddant yn dal i fod yn gymwys i gael gwiriad DBS Safonol a byddant bob amser yn gallu gwneud cais am wiriad DBS Sylfaenol.

Os yw'r oedolion yn derbyn gwasanaeth neu weithgaredd o Gam 1 ac mae'r unigolyn yn darparu gweithgaredd ar eu cyfer o Gam 2, yna mae angen iddynt fod yn darparu'r gweithgaredd hwn yn ddigon aml i fod yn gwneud gwaith gydag oedolion.

Bodlonir y gofyniad hwn os yw'r person sy'n cyflawni'r gweithgaredd yn ei wneud:

- ar unrhyw adeg am fwy na 3 diwrnod mewn unrhyw gyfnod o 30 diwrnod; neu
- ar unrhyw adeg rhwng 2yb a 6yb ac mae'r gweithgaredd yn rhoi cyfle i'r person gael cyswllt wyneb yn wyneb â'r oedolyn; neu
- leiaf unwaith yr wythnos yn barhaus

Os yw'r unigolyn yn bodloni'r gofynion yn yr holl gamau hyn, mae'n cyflawni'r hyn y cyfeirir ato at ddibenion gwirio DBS fel gwaith gydag oedolion.

Os nad ydynt yn cyflawni'r gweithgareddau hyn yn ddigon aml, efallai y byddant yn dal i fod yn gymwys i gael gwiriad DBS Safonol a byddant bob amser yn gallu gwneud cais am wiriad DBS Sylfaenol.

Mae hyn yn golygu eu bod yn gymwys i wneud cais am wiriad DBS Uwch. Nid oes mynediad i wiriad Rhestr Gwahardd Oedolion ar gyfer unrhyw un sy'n gwneud gwaith gydag oedolion.

Dylid trin pob achos yn unigol. Gellir dod o hyd i ganllawiau manwl ar waith gydag oedolion yn y Canllaw Gweithlu Oedolion ar ein [gwefan](#).